St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

# CANLLAW RHIENI

## 2024/25



# Cynnwys


Neges gan y Pennaeth 02
Manylion Cyswllt 03
Dyddiadau Pwysig 04
Pam y canllaw hwn? 05
Beth yw ein pwrpas? Diwylliant ac Ethos Coleg Dewi Sant 05
Proffil Myfyrwyr – Beth gall rhieni ddisgwyl ar gyfer eu mab neu eu merch 06
Disgwyliadau'r Coleg 07
Monitro Presenoldeb 09
Astudio Lefel 2 09
Sut olwg sydd ar Raglen Lefel 3 10
Addysgu a Dysgu 11
Asesu ac Adrodd 14
Awgrymiadau Adolygu Allweddol 15
16 Porth Rhieni
16 Addysg Fyfyriol: Ysbrydol
17 Addysg Fyfyriol: Bugeiliol
18 Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru
20 Y Rhaglen Anrhydeddau
21 Cyfleoedd Cyfoethogi
25 Cyfleoedd Gwasanaeth
25 Yr Iaith Gymraeg
27 Galwedigaethau ac UCAS
28 Sut gallwch chi gyfranogi?
29 Os oes gennych chi bryder neu gŵyn
30 Beth i'w wneud os... (Canllaw cyflym)
33 Nodiadau
34 Cysylltiadau Defnyddiol

# Neges gan y Pennaeth

Diolch am eich hyder mewn Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant. Mae'n fraint croesawu eich mab neu'ch merch i ni yn ystod adeg mor allweddol yn eu datblygiad. Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn cynorthwyo wrth eich cefnogi chi i'n helpu ni i ddiwallu anghenion eich plentyn yn y ffordd orau.

I fyfyrwyr yng Ngholeg Dewi Sant, dyma amser cyffrous a heriol y bydd yn hedfan heibio, gan adael atgofion hapus gobeithio. Byddwch yn ymwybodol ein bod ni'n ymdrechu uwchben popeth i fod yn gymuned sy'n ymgorfforiad o'n gwerthoedd a'n credoau Catholig a Christnogol. Ein prif ffocws yw'r ymchwil am wirionedd ac ystyr, ac rydym ni'n ceisio helpu'r holl bobl ifanc sydd yn ein gofal i fyfyrio'n feirniadol ar gwestiynau pwysicaf bywyd a datblygu eu ffydd mewn Duw. Yn ein barn ni, hyn sy'n arfogi ein myfyrwyr orau i lwyddo ym mywyd. Mae ein canlyniadau rhagorol yn ganlyniad o hyn.

Fel yn achos unrhyw sefydliad llwyddiannus, mae gennym ni ddyddiadau, prosesau a gweithdrefnau pwysig sy'n cael eu nodi a'u cynnal. Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno gwybodaeth allweddol o'r fath a fydd o ddiddordeb i chi.

Gallwch fod yn hyderus y byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn hapus ac yn fodlon yng Ngholeg Dewi Sant ac yn cyflawni'r potensial academaidd sydd ganddynt. Diolch i chi unwaith eto am ddechrau'r berthynas â'n cymuned.

Geraint Williams

# CYFEIRIAD

Coleg Catholig Dewi Sant,
Heol Tŷ Gwyn,
Pen-y-lan,
Caerdydd
CF23 5QD

*D.S. Wrth ddefnyddio'r Satnav, defnyddiwch y côd post canlynol: CF23 5JB*

Cyffredinol:
enquires@
stdavidscollege.ac.uk

# CYSYLLTU

Prif Ffôn:
029 2049 8555

Llinellau Uniongyrchol:
029 2043 18 _ _

**Diogelu:** ext 53 or 24
**Disgyblaeth:** ext 53
**Tiwtoriaid Bugeiliol:** ext 90
**Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru:**
ASBW@stdavidscollege.ac.uk
**CAD:** ext 48
**Arholiadau**: ext 27
**UCAS:** ext 93
**Gwasanaethau Myfyrwyr**
ext 78
*Studentservices@ stdavidscollege.ac.uk*
**Safle Lansio:** *launchpad@*

Mae gennym ni Swyddog Diogelu a Lles i gefnogi eich plentyn yn ystod adegau o argyfwng. E-bostiwch **feelsafe@ stdavidscollege.ac.uk** yn ystod oriau'r coleg i gysylltu â'r Tîm Diogelu.

Y tu allan i oriau'r coleg, efallai y bydd angen i chi neu'ch plentyn chwilio am gymorth asiantaethau a darparwyr gwasanaeth allanol **(tud. 23).**

Byddwn ni bob amser yn ymdrechu i ateb unrhyw ymholiadau pellach a allai fod gennych chi, felly mae croeso i chi gysylltu â'r aelod o staff priodol gan ddefnyddio unrhyw un o'r ffyrdd a awgrymir ar y tudalennau hyn, neu drwy ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost. Cyfeiriadau e-byst staff Dewi Sant yw llythyren gyntaf enw'r aelod o staff, ac yna ei gyfenw, ac yna @stdavidscollege.ac.uk.

**Enghraifft:** Miss Unrhyw Staff
UStaff@stdavidscollege.ac.uk

# DYDDIADAU PWYSIG

Dydd Mercher 9 Hydref 2024

## DIWRNOD HMS

Dydd Llun 28 Hydref - Dydd Gwener 1 Tachwedd 2024

## HANNER TYMOR

Dydd Llun 23 Rhagfyr - Dydd Gwener 3 Ionawr 2025

## GWYLIAU'R NADOLIG

Dydd Iau 30 Ionawr 2025

## DIWRNOD HMS

*Diwrnodau HMS eraill i'w cadarnhau.*

Dydd Llun 24 Chwefror - Dydd Gwener 28 Ionawr 2025

## HANNER TYMOR

Dydd Gwener 11 Ebrill - Dydd Llun 28 Ebrill 2025

## GWYLIAU'R PASG

Dydd Sul 20 Ebrill 2025

## DYDD SUL Y PASG

Dydd Llun 26 Mai - Dydd Gwener 30 Mai 2025

## HANNER TYMOR

Dydd Gwener 4 Gorffennaf 2025

## DIWEDD Y TYMOR

**AMODOL:** Canlyniadau Lefel 3: Dydd Iau 14 Awst 2025
Canlyniadau Lefel 2: Dydd Iau 21 Awst 2025

# PAM Y CANLLAW HWN?

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys yr wybodaeth allweddol y dylai fod ei hangen arnoch drwy gydol amser eich plentyn gyda ni.

# BETH YW EIN PWRPAS?

## DIWYLLIANT AC ETHOS COLEG CATHOLIG DEWI SANT

Mae Coleg Dewi Sant yn lle arbennig. Prin yw'r rhai sy'n dod drwy ein drysau nad ydynt yn sylwi bod yna rywbeth cadarnhaol sy'n ein gwneud ni'n neilltuol ymysg llawer o ysgolion a cholegau eraill yng Nghymru. Efallai mai'r arwyddion a'r symbolau sy'n addurno ein coridorau a'n hystafelloedd dosbarth yw hynny, ond rydym ni'n gwybod bod llawer mwy iddo hefyd.

Nododd Adroddiad Arolygiad Archesgobaeth Caerdydd 2020: **"Mae addysg Catholig yng Ngholeg Catholig Dewi Sant o'r asawdd uchaf. Mae'r Datganiad o Genhadaeth yn glir iawn, ac wedi'i wreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd yr Efengyl gyda'r nod o greu 'Coleg Catholig i'r gymuned sy'n ceisio darganfod a gwireddu llawn botensial pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist'."** Nododd hefyd: "Mae myfyrwyr, sy'n Gatholig neu o grefydd neu gred arall, yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o'r coleg, ac yn gadarnhaol iawn am eu profiadau."

Yn wir, yng Ngholeg Dewi Sant, rydym ni'n treulio llawer o amser yn myfyrio am "alwedigaeth" a'r ffordd mae'n berthnasol i holl aelodau ein cymuned, ond yn y bôn, mae gan y Coleg alwedigaeth ei hun: hynny yw, ei alwedigaeth i feithrin ymdeimlad o bwrpas ym mhob un o'i aelodau... rheswm i fyw, i ddyheu ac i ffynnu.


I ni, golyga hyn gael ein hysbrydoli gan Grist a bod fel Crist. Ar yr un pryd, rydym ni'n cydnabod na fydd pawb yn rhannu'r gred hon; ac oherwydd hyn, rydym ni'n ymdrechu i fynd i'r afael â'r holl gwestiynau mewn ffordd sy'n gwahodd ystyriaeth gan bawb, waeth beth fo'u cefndir a bod yn gymuned lle gall bawb perthyn.

Yn y ffordd hon, mae Coleg Dewi Sant yn ceisio datblygu'r person cyfan. Drwy feithrin rhagoriaeth mewn academyddion, adfyfyrio ar bwy ydym ni mewn perthynas â'r byd, mewn perthynas â ni ein hunain, ac mewn perthynas â Duw, mae'r Coleg yn dod i fod yn fwy na rhywle i ennill cymwysterau'n unig; ni yw'r pridd lle gall menywod a dynion ifanc flodeuo. Dyna ddiwylliant ac ethos Coleg Dewi Sant.

# BETH RYDYM NI'N EI GYNNIG I'N MYFYRWYR?

Mae Coleg Dewi Sant llawer yn fwy na mynychu gwersi a dychwelyd adref. Rydym ni'n ymdrechu i gyfoethogi'r person cyfan drwy dynnu ynghyd yr holl waith rydym ni'n ei wneud fel aelodau o'r gymuned, gan gynnwys ein datblygiad personol ac ysbrydol, ein gwirfoddoli, ein gweithgareddau allgyrsiol a'n hastudiaethau academaidd, a'u cysylltu i fod yn un darlun mawr a elwir yn Broffil Myfyriwr.

Ein gobaith yw, erbyn i fyfyriwr ein gadael ar ddiwedd ei gwrs, a chamu allan i'r byd, y bydd wedi'i arfogi'n well i ymdopi a'r heriau nag y byddai petai'n gwybod am ambell bwnc penodol yn unig. Uwchben pob dim, rydym ni am i'n myfyrwyr adael gydag ymdeimlad o'u gwerth llawn fel pobl; hynny yw, plant annwyl Duw, sy'n cynnwys meddwl, corff ac ysbryd, yn ogystal ag ymdeimlad o genhadaeth.



# SIARTER Y COLEG

Gellir crynhoi Siarter y Coleg yn dri disgwyliad pwysig. Mae'r disgwyliadau hyn yn ceisio ein galluogi i gyflawni ein cenhadaeth o fod yn Goleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu llawn botensial pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist.

**Rydym yn mynnu bod ein dysgwyr:**

YN BAROD

YN BARCHUS

YN DDIOGEL

## Yr hyn a olygwn wrth fod yn BAROD

- Bod yn brydlon ar gyfer gwersi.
- Rhoi gwybod i athrawon pwnc, drwy e-bost neu drwy Teams, os byddwch yn colli gwersi ac yna dangos menter drwy ddal i fyny â gwaith a gollwyd a bod yn hyderus am y cynnwys cyn y wers nesaf.
- Dod i'r dosbarth yn gwbl barod gyda'r offer a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y wers honno.
- Cynnal ffeil cwrs drefnus a chyfredol.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer profion ac asesiadau eraill.
- Ymgymryd â darllen ac adolygu ehangach i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.
- Peidio â bwyta, cnoi nac yfed (ac eithrio dŵr) mewn gwersi.
- Defnyddio'r toiled cyn gwersi i osgoi gorfod gadael y wers pan fydd wedi dechrau.

## Yr hyn a olygwn wrth fod yn BARCHUS

- Dangos parch a charedigrwydd at yr holl staff a myfyrwyr eraill bob amser.
- Peidio â defnyddio ffôn symudol, oni bai bod eich athro yn gofyn i chi wneud hynny fel rhan o'r wers.
- Cwblhau pob tasg erbyn y terfynau amser a hyd eithaf eich gallu.
- Dysgu'r termau a'r cysyniadau allweddol sy'n bwysig ar gyfer pob un o'ch cyrsiau.

- Cymryd rhan gadarnhaol mewn gwersi a thrafodaethau dosbarth.
- Canolbwyntio a gwrando'n astud mewn gwersi, gan wneud nodiadau ychwanegol, yn ôl yr angen.
- Atgyfnerthu eich gwybodaeth drwy dreulio amser gartref ac mewn gwersi rhydd yn adolygu'r gwaith rydych wedi'i wneud.
- Gwisgo'n barchus. Peidio â gwisgo hetiau, gan gynnwys cyflau, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwisgo ar gyfer credoau crefyddol.
- Defnyddio biniau i gael gwared ar sbwriel a helpu i gadw amgylchedd y coleg yn lân ac yn daclus.
- Ymddwyn mewn modd parchus tuag at ein cymdogion yn y gymuned a'r amgylchedd lleol.

## Yr hyn a olygwn wrth fod yn DDIOGEL

- Gwisgo bathodyn adnabod y Coleg sy'n weladwy bob amser.
- Peidio ag ysmygu neu fêpio ar y safle.
- Ceisio cefnogaeth ychwanegol gan athrawon pwnc, tiwtoriaid bugeiliol, y Tîm Cefnogi Dysgu, neu'r Tîm Lles, os oes angen.
- Gyrru dim mwy na 5mya o fewn safle'r Coleg.
- Adrodd am unrhyw bryderon i'r tîm diogelu a bugeiliol
- Gofalu am ddiogelwch ei gilydd fel cymuned
- Bod yn bresennol yn yr holl wersi a chyfathrebu rheolaidd â thiwtoriaid bugeiliol.



# MONITRO PRESENOLDEB

Yn syml iawn, mae presenoldeb yn bwysig tu hwnt. Mae ymchwil yn dangos bod pob 5% o bresenoldeb a gollir yn cyfateb â hanner gradd ar lefel Safon Uwch. Rydym ni'n disgwyl i'r holl ddysgwyr anelu at bresenoldeb o 100% yn yr holl wersi (ar y safle ac o bell), a'r disgwyliad sylfaenol yw 95%. Mae gan Goleg Dewi Sant yn union yr un disgwyliadau o ran presenoldeb ag ysgol gyfun flaenorol eich mab neu'ch merch.

Oherwydd hyn, caiff presenoldeb ei fonitro drwy system gofrestru electronig. Caiff data presenoldeb ei gasglu a gellir cyrchu'r data hwn drwy Student Advantage (sy'n Gynllun Dysgu Unigol electronig) a Parental Advantage. Wrth reswm, fe'ch anogir i edrych yn aml ar Parental Advantage fel ffordd o ddilyn cynnydd eich plentyn yn gyffredinol. Yn ogystal, fel rhiant, bydd athro pwnc neu diwtor bugeiliol eich plentyn yn cysylltu â chi pan fydd presenoldeb yn dechrau dirywio.

Yn achos absenoldeb, gallwch chi fel rhiant/gwarcheidwad awdurdodi absenoldeb eich plentyn drwy Parent Advantage o fewn 10 niwrnod o absenoldeb eich plentyn.

# ASTUDIO LEFEL 1

Cynlluniwyd y rhaglen hon ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn bodloni gofynion Lefel 2. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymhwyster astudiaethau galwedigaethol a chymhwyster mewn datblygiad a lles personol. Bydd dysgwyr yn astudio Mathemateg a Saesneg ar y lefel briodol. Byddant yn mynychu sesiynau Myfyrio Bugeiliol a Myfyrio Ysbrydol hefyd. Bydd y rhaglen hon yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i symud ymlaen i Lefel 2.

# ASTUDIO LEFEL 2

Mae gennym ni lawer o fyfyrwyr yng Ngholeg Dewi Sant a fyddai'n hoffi parhau â'u haddysg y tu hwnt i'r ysgol gyfun ond nad ydynt wedi cael y graddau TGAU mae eu hangen arnynt i symud ymlaen i Safon Uwch neu gwrs Lefel 3 galwedigaethol. Mae ein darpariaeth Lefel 2 yn bodoli ar gyfer y myfyrwyr hyn, gan eu galluogi nid yn unig i gael cyfle i wella ar eu perfformiad blaenorol ar raglen ddiddorol o astudio a addysgir yn dda ond drwy hefyd fynd i'r afael â rhai o'r pynciau allweddol a allai wedi bod yn broblem, gan gynnwys TGAU Saesneg, TGAU Gwyddoniaeth a TGAU Mathemateg.

# ASTUDIO LEFEL 3

## SUT OLWG SYDD AR RAGLEN LEFEL 3

Gall rhaglen Lefel 3 gynnwys cyfuniad o unrhyw Safon Uwch/UG priodol a/neu BTEC, ynghyd â chydran 'Estyniad Academaidd' (Bagloriaeth Cymru), cydran 'Addysg Fyfyriol' (sy'n cynnwys sesiwn fugeiliol a sesiwn myfyrio ysbrydol bob wythnos) ac, wrth reswm, y gwaith allgyrsiol rydym ni'n ei annog yn ein holl fyfyrwyr.

**Gall myfyrwyr symud o UG i U2 os ydynt yn cael gradd D neu uwch.**

# AMSERLEN

Mewn blwyddyn arferol, gall amserlen ar gyfer myfyriwr **Lefel 3** cyffredin edrych fel hyn:

Bydd amserlenni myfyrwyr Lefel 1 a Lefel 2 yn wahanol, ond mae'r amseroedd dechrau a gorffen ar gyfer y dydd yr un peth.

| | LLUN | MAW-RTH | MERCH-ER | IAU | GWEN-ER |
|---|---|---|---|---|---|
| 9:05-9:55 | BUGEILIOL | BIOLEG | SGILIAU UWCH BAGLORIAETH CYMRU | CEMEG | |
| 9:55-11:00 | MYFYRDOD YSBRYDOL | BIOLEG | SGILIAU UWCH BAGLORIAETH CYMRU | CEMEG | |
| 11:00-11:15 | EGWYL | EGWYL | EGWYL | EGWYL | EGWYL |
| 11:15-12:05 | MATHEMATEG | SGILIAU UWCH BAGLORIAETH CYMRU | CEMEG | MATHEMATEG | BIOLEG |
| 12:10-13:00 | MATHEMATEG | MATHEMATEG | | MATHEMATEG | |
| 13:00-13:40 | CINIO | CINIO | CINIO | CINIO | CINIO |
| 13:40-14:30 | CEMEG | | BIOLEG | | |

# DYSGU AC ADDYSGU

Bydd pob dysgwr yn elwa o arferion dysgu ac addysgu sy'n ddiddorol, yn arloesol ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Bydd yr holl bobl ifanc sy'n dewis dod i Goleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn elwa o ddysgu ac addysgu o safon, lle caiff holl anghenion yr unigolyn eu diwallu, waeth beth fo'u galluoedd.

Mae Coleg Dewi Sant yn gwbl ymrwymedig i 'ragoriaeth' mewn arferion dysgu ac addysgu i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni eu potensial llawn, waeth beth fydd eu man dechrau. Bydd pob myfyriwr sy'n mynychu Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn elwa o strategaethau dysgu ac addysgu diddorol, arloesol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

I'r perwyl hwn, rydym ni wedi sefydlu Strategaeth Dysgu ac Addysgu tair blynedd o hyd sy'n gweithredu i lywio ein hymagwedd at weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth er budd pob myfyriwr.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys:

- Ymrwymiad i ragoriaeth a thwf, i sicrhau y gall dysgu ac addysgu gwych ffynnu.
- Rhaglen datblygu staff helaeth, yn seiliedig ar ymchwil i weithrediadau, sy'n cefnogi athrawon i gyflawni strategaethau ennyn diddordeb arloesol ac effeithiol ac o safon yn yr ystafell ddosbarth.
- Ymdrechu ar gyfer rhagoriaeth dysgu ac addysgu yn yr ymagweddau sy'n cael eu mabwysiadu.
- Sicrhau profiad gwell i ddysgwyr drwy gyfranogiad, mwynhad a chanlyniadau gwell i ddysgwyr.
- Integreiddio themâu, gwerthoedd a rhinweddau Catholig wrth ddysgu ac addysgu, lle bo'n berthnasol.
- Gwreiddio diwylliant, hunaniaeth a hanes Cymru yn ein cwricwlwm.
- Ffocws parhaus ar ddatblygu sgiliau sy'n seiliedig ar bwnc sy'n angenrheidiol ar gyfer cyrhaeddiad uchel, gan gynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, er mwyn i ddysgwyr ddod yn fwy annibynnol wrth ddysgu.

- Diwallu anghenion yr holl ddysgwyr drwy gynllunio trylwyr sy'n defnyddio gwybodaeth am garfannau, mapio proffiliau a strategaethau gwahaniaethu priodol.

- Darparu cymorth ychwanegol ac integredig arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Darparu cymorth bugeiliol i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn drwy gymorth priodol ac ymagwedd gyfrannol at osod targedau.

- Cynnwys asesiadau cadarn a rheolaidd fel cydran hanfodol o ddysgu ac addysgu.

- Hyrwyddo agweddau ac ymddygiad allweddol, gan gynnwys Meddylfryd Tyfu, sy'n annog dysgwyr i fod yn uchelgeisiol, yn hyderus, yn alluog ac yn annibynnol. Gweler "Beth sy'n gwneud myfyriwr llwyddiannus" drosodd.

- Siarad â dysgwyr am eu profiadau dysgu i ennyn gwelliant mewn dysgu ac addysgu.

- Mabwysiadu strategaethau dysgu cyfunol, i wella a chyfoethogi profiadau dysgu, sgiliau digidol a chanlyniadau ar gyfer ein myfyrwyr, a gwella canlyniadau.

- Darparu amgylchedd corfforol, sy'n gwella'r profiad dysgu ac sy'n hyrwyddo safonau a disgwyliadau uchel i ddysgwyr.

- Ffocws ar strategaethau ysgrifennu, cwestiynu a thrafod sy'n ceisio mwyafu cyfranogiad a chadernid, fel bod myfyrwyr yn gwneud yr ysgrifennu, y meddwl, y dadansoddi a'r siarad mwyaf posib.



# BETH SY'N GWNEUD MYFYRIWR LLWYDDIANNUS?

- Uchelgais, gyda disgwyliadau uchel mewn perthynas â'u hunain
- Prydlondeb a pharodrwydd i ddysgu ar ddechrau pob gwers
- Trefn dda (ffolderi cwrs wedi'u rhannu'n adrannau allweddol) a dod ag adnoddau sy'n seiliedig ar y pwnc ym mhob gwers (nodiadau dosbarth, papur, pennau, aroleuwyr, prennau mesur, cyfrifianellau, etc.)
- Gwrando'n astud a chanolbwyntio yn y dosbarth, gan ddefnyddio arbenigedd yr athro i'r eithaf - amlygu pwyntiau allweddol a gwneud nodiadau ychwanegol wrth i'r athro siarad
- Bod yn wydn yn wyneb heriau (h.y. peidio â rhoi'r gorau iddi pan fydd gweithgaredd anodd)
- Bod yn effeithiol yn y dosbarth, fel dysgwyr annibynnol ac wrth weithio mewn grwpiau
- Bod yn chwilfrydig am eu pwnc, gan ofyn cwestiynau'n aml a chyfrannu mewn modd ystyriol at drafodaethau yn ogystal â darllen yn ehangach am y pwnc
- Gweithredu'n awyddus ar adborth gan diwtoriaid i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau a gwella canlyniadau (e.e. marcio a golygu atebion mewn pennau o liw gwahanol).
- Dysgu gan yr holl adborth a chanolbwyntio'n llawn ar ddatblygu'r sgiliau i wella (e.e. marcio a golygu atebion mewn pennau o liwiau gwahanol)
- Canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau pwnc allweddol a'r wybodaeth drylwyr mae eu hangen er mwyn llwyddo
- Ceisio a datblygu ymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig (e.e. datblygu pwyntiau gan ddefnyddio terminoleg pwnc arbenigol yn llawn)
- Bod yn awyddus i ddeall y meini prawf sy'n sail i'r asesiad (e.e. deilliannau asesu, bandio, etc.)
- Bod yn barchus, yn garedig ac yn gefnogol i'r holl gymheiriaid
- Bod yn gynhyrchiol rhwng gwersi er mwyn cryfhau, defnyddio ac ehangu gwybodaeth (e.e. ymgymryd â strategaethau dysgu gweithredol megis darllen ehangach, creu deunyddiau adolygu sy'n crynhoi, cwblhau cwestiynau cyn-bapurau, etc.)

# ASESU AC ADRODD

Ar yr holl gyrsiau UG/Safon Uwch, UG/U2 Gymhwysol a TGAU, rhaid cwblhau o leiaf dau asesiad 'sylweddol' bob hanner tymor. Caiff y rhain eu graddio a'u cofnodi ar y llwyfan "Student Advantage". Caiff un asesiad fesul uned ei gynnwys ar "Student Advantage". Ar gyfer cyrsiau BTEC, caiff graddau eu dyfarnu ar gwblhau'r uned yn unig.

Mae asesiadau 'sylweddol' yn adlewyrchu gofynion allanol y cwrs. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau 'sylweddol' ar gyfer cyrsiau UG/Safon Uwch ac UG/Safon Uwch Gymhwysol ar ffurf cwestiynau o gyn-bapurau arholiad allanol, er enghraifft, traethodau neu gwestiynau math ymateb i ddata. Mae asesiadau ar gyfer cyrsiau BTEC ar Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 yn fwy amrywiol, gan gynnwys cyflwyniadau, adroddiadau ffurfiol, ac ati. Mae asesiadau ar gyfer cyrsiau TGAU yn gwestiynau cyn-bapurau.

Caiff asesiadau eu marcio o fewn pythefnos o'u cyflwyno.

Gellir canfod gwybodaeth am gynnydd eich mab/merch ar Parent Advantage.

Ni chaiff adroddiadau eu hanfon adref ond byddant ar gael ar Parent Advantage ym mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025. Bydd adroddiadau yn darparu gwybodaeth ar bresennoldeb, cyflawniad, graddau targed a graddau ymdrech.



# AWGRYMIADAU ADOLYGU ALLWEDDOL I DDYSGWYR

- Dylech chi osod targed arholiad personol - pa ganlyniad ydych chi am ei gael? (Os ydych chi'n gobeithio am "B", anelwch am "A" ac os nad yw pethau'n mynd yn dda, gobeithio y byddwch chi'n cael y "B" o hyd. Os bydd pethau'n mynd yn dda, gwych!)
- DECHREUWCH YN GYNNAR - dylech chi ddechrau o ddifrif tri i bedwar mis cyn unrhyw arholiad allanol.
- Dylech chi bob amser cynllunio eich adolygu. Dylech chi greu cynllun adolygu sy'n dangos yr hyn mae'n rhaid ei adolygu dros yr amser sy'n weddill - cofiwch fod cynllunio'n atal perfformiad gwael.
- Ewch i'r holl sesiynau adolygu a gynhelir gan staff, yn ogystal â mynd i weld staff am unrhyw ymholiadau.
- Sicrhewch fod gennych chi ffeil adolygu drefnus. Defnyddiwch ddeunyddiau adolygu a ddarperir gan staff!
- Rhowch gynnig ar wahanol dechnegau adolygu gweithredol - ceisiwch grynhoi eich nodiadau; crëwch fapiau meddwl; defnyddiwch ddiagramau ar wasgar; profwch, profwch a phrofwch eich hunan unwaith eto - mae gwybodaeth fanwl yn hanfodol (mae darllen dros nodiadau'n weithred oddefol ac aneffeithiol iawn i'r rhan fwyaf o bobl).
- Crëwch fanc o ddiffiniadau allweddol a'u hadolygu (Defnyddiwch gardiau fflach, nodiadau sydyn, ac ati).
- Dylech chi ganolbwyntio ar sgiliau/technegau arholiad, yn ogystal â'r cynnwys.
- Dylech ymarfer cwestiynau arholiad ar bynciau o onglau gwahanol - gorau arf ymarfer! (Mae Banc Cwestiynau CBAC yn adnodd ardderchog gyda chwestiynau o gyn-bapurau a chynlluniau marcio a fydd yn cefnogi datblygiad gwybodaeth fanwl yn ogystal â gwella techneg arholiadau, y mae ill dau yn hanfodol er mwyn cael graddau uchel).
- Dylech ymarfer dan amodau amser arholiad.
- Dilynwch dechnegau sydd fwyaf effeithiol yn ôl ymchwil (gweler y ddolen we/fideo ardderchog hwn: https://www.youtube.com/watch?v=8VA0JPzD9dQ)
- Mae techneg ddefnyddiol arall ar gyfer gwneud nodiadau adolygu ar gael yn y clip yma https://twitter.com/i/status/1232263649936465920
- Dylech chi bob amser chwilio am farciau "coll" mewn asesiadau – dyma ffordd gadarn o ddatblygu eich gwybodaeth a chamu'n nes at y 100% hwnnw.
- Defnyddiwch fan tawel y ganolfan adnoddau dysgu i astudio ac adolygu'n galed yn ystod gwersi rhydd.

Mae'r awgrymiadau uchod wedi bod yn ddefnyddiol iawn i fyfyrwyr yn y gorffennol a byddant yn ddefnyddiol i chi hefyd.

# Y PORTH RHIENI

Mae'r Porth Rhieni yn galluogi i chi gyrchu amrywiaeth o wybodaeth sy'n ymwneud â chwricwlwm eich mab neu'ch merch. Gallwch gael gwybodaeth sy'n cynnwys amserlen ei g/chwrs, amserlen ei (h)arholiadau, presenoldeb ar draws ei g/chyrsiau, gwybodaeth asesu gan gynnwys adborth ar aseiniadau, graddau targed ac adroddiadau. Yn bwysig, mae hefyd yn eich galluogi chi i gael trafodaeth ar-lein â Thiwtor Bugeiliol eich plentyn.

**I gyrchu'r Porth Rhieni, gallwch chi fynd i wefan y Coleg, dewis yr opsiwn "Ardal Rhieni" ar frig y dudalen a dilyn y ddolen sydd yno. Fel arall, gallwch chi ddefnyddio'r URL canlynol:**

**cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/parent-portal**

# ADDYSG FYFYRIOL: YSBRYDOL

Gwnaed y sylwadau canlynol ynghylch y cwrs Myfyrdod Ysbrydol yn yr adroddiad diweddar o Arolygiad yr Esgobaeth: "Myfyrdod Ysbrydol yw'r teitl a roddwyd i'r rhaglen Addysg Grefyddol mae pob myfyriwr yn y Coleg yn ei dilyn. Mae'n gwrs dychmygol a gynlluniwyd yn dda sydd bellach yn ei ail flwyddyn. Mae'n gyfuniad o'r Proffil Disgyblion Iesuwyr, sy'n cynnwys wyth pâr o rinweddau, ynghyd â disgwyliadau'r Cyfeiriadur Cwricwlwm Addysg Grefyddol (RECD). Fe'i cynlluniwyd i fod yn hygyrch i fyfyrwyr o unrhyw ffydd neu dim ffydd mewn ffordd a fydd yn eu hannog i archwilio amrywiaeth o gwestiynau athronyddol, diwiniaethol, moesegol ac ysbrydol mewn ffordd fyfyriol, dadansoddol a chytbwys. Mae arolygwyr yn cadarnhau ei bod yn ennyn cwestiynu a thrafodaeth ac yn cyflwyno credoau, gwersi ac arferion allweddol yr Eglwys Gatholig a chredoau eraill."

Y cwestiwn cychwynnol i bob myfyriwr ar y cwrs yw: 'Pa fath o berson hoffwn i fod?' Drwy gydol y cwrs, bydd gan fyfyrwyr gyfle i fyfyrio ar amrywiaeth o rinweddau a gwerthoedd, astudiaethau achos o rinweddau o'r fath yn ymarferol yn ogystal â modelau rôl i'w hefelychu. Gall myfyrwyr dderbyn Dyfarniad Estynedig Lefel 3 Agored Cymru mewn Addysg Grefyddol ar gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Cymhwyster ychwanegol yw hwn a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru. **Bydd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn ennill 8 Pwynt Tariff UCAS ychwanegol a allai helpu i sicrhau'r cwrs prifysgol o'u dewis.**

# ADDYSG FYFYRIOL: BUGEILIOL

Nid yw gofal bugeiliol yng Ngholeg Dewi Sant yn ymarfer ategol yn unig; mae wedi'i wreiddio'n llawn mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu er mwyn diwallu anghenion personol, cymdeithasol (lles) ac academaidd myfyrwyr yn llawn.

Mae hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol myfyrwyr a meithrin agweddau cadarnhaol yn hanfodol i Raglen Fugeiliol Dewi Sant, a gyflwynir mewn gwersi Tiwtor Bugeiliol wythnosol. Caiff systemau bugeiliol a chymorth penodol, ac ethos y Coleg, eu meithrin er mwyn galluogi datblygiad personol a chymdeithasol unigolion. Caiff hyn ei gyflawni mewn amryw o ffyrdd, yn nhermau bugeiliol drwy drefniadau ar gyfer monitro cynnydd cyffredinol myfyrwyr (academaidd, personol a chymdeithasol).

Mae pob grŵp tiwtora yn annog ymdeimlad o gymuned lle gall myfyrwyr deimlo'n ddiogel yn trin a thrafod materion sy'n effeithio arnyn nhw, ar eraill a'u hamgylchedd. Mae'r meysydd pwnc sy'n cael eu harchwilio yn amrywiol, megis safbwyntiau am y byd, bod yn ddiogel ar y rhyngrwyd, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, byw'n iach, gan gynnwys cyngor am faeth ac ymarfer corff, materion byd-eang, strategaethau gwydnwch, perthnasoedd iach a hefyd ymgyrch y Nadolig i godi arian a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer yr elusen Crisis at Christmas.

Nododd yr adroddiad Arolygiaeth yr Esgobaeth 2020: "Mae sefydliad bugeiliol y coleg yn gynhwysol, yn systematig, yn rhagweithiol ac yn ofalgar ac mae myfyrwyr a rhieni yn hyderus ynddo. Roedd y myfyrwyr y cyfwelwyd â nhw yn deall y system gymorth, yn gyffyrddus yn gofyn am gymorth yn ôl yr angen ac yn teimlo bod eu cymheiriaid hefyd yn ymddiried yn y system ac yn ei defnyddio i'w cynorthwyo wrth ddysgu a chyda materion bywyd eraill sy'n codi'n anochel i unigolion."



Mae pob myfyriwr Lefel 3 yn y Coleg yn astudio ar gyfer y cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru, a adnabuwyd yn flaenorol fel y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'n cael ei graddio o **A* i E** ac yn werth hyd at **56 o bwyntiau UCAS**. Rhaid i bob dysgwr gwblhau tri phrosiect gorfodol sy'n cynnig cyfrwng i ddysgwyr ddatblygu, ymarfer a dysgu Sgiliau Hanfodol drwy amrywiaeth o gyd-destunau sy'n berthnasol ac yn gyfoes ac sy'n annog cyfranogwyr i gymryd rhan mewn cyfranogiad beirniadol a dinesig ac ystyried eu lles a lles pobl eraill.

## PROSIECT CYMUNED FYD-EANG

Mae'r Prosiect Cymuned Fyd-eang yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio amrywiaeth eang o faterion byd-eang cymhleth ac amlochrog a gwerthfawrogi sut mae materion byd-eang yn mynd y tu hwnt i ffiniau lleol a chenedlaethol.

Drwy gwblhau'r Prosiect Cymuned Fyd-eang, bydd dysgwyr yn:

- Datblygu fel dinesydd byd-eang gwybodus
- Tynnu ar gysylltiadau rhwng materion lleol, cenedlaethol a byd-eang
- Cymryd rhan fel dinesydd gweithredol mewn byd a Chymru gynaliadwy.

Mae'r gallu hwn i chwarae rôl yn y gymdeithas, yn ogystal â sut i'w llywio'n hyderus, yn set hanfodol o sgiliau i bawb.

## PROSIECT CYRCHFANNAU'R DYFODOL

Caiff dysgwyr eu hannog i archwilio cyfleoedd cyflogaeth realistig a'r llwybrau posib sydd ar agor iddynt. Byddant yn archwilio eu taith i gyflogaeth ynghyd ag ystyried yr effeithiau iechyd, cymdeithasol ac ariannol posib iddyn nhw ac i eraill.

Mae'r Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol hefyd yn galluogi dysgwyr i ddeall gwerth cydweithio i ddatblygu eu ffyrdd personol o feddwl. Bydd gan ddysgwyr y cyfle i:

- Fod yn hunan-ymwybodol drwy ystyried nodweddion, galluoedd, cyflawniadau a blaenoriaethau lles personol
- Archwilio llwybrau i gyrchfannau cyflogaeth ac ystyried yr effaith bosib ar les personol a lles eraill.

- Archwilio ffyrdd o gydweithio ag eraill i ddatblygu eu ffyrdd personol o feddwl.

## PROSIECT UNIGOL

Mae'r Prosiect Unigol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ymchwil a chânt eu hannog i archwilio pwnc gyda phwyslais ar ddyheadau addysgol neu yrfa'r dyfodol. Bydd y sgiliau y bydd dysgwyr yn eu datblygu o fudd mawr iddynt mewn addysg uwch a chyflogaeth yn y dyfodol, yn ogystal â phwyntiau trafod da ar gyfer cyfweliadau sy'n arwain at eu cyrchfan yn y dyfodol.

Wrth gwblhau'r prosiect hwn, bydd dysgwyr yn:

- Cydnabod pwysigrwydd ymchwil wrth wneud penderfyniadau gwybodus
- Cael eu hannog i ganfod, gwerthuso, dadansoddi, cyfathrebu a defnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau cymhleth
- Cael cyfle i ddangos gwreiddioldeb, menter a chymryd cyfrifoldeb personol.



# Y RHAGLEN ANRHYDEDDAU

Mae'r Rhaglen Anrhydeddau wedi'i chynllunio ar gyfer 'myfyrwyr mwy abl a thalentog,' yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Pwrpas y Rhaglen yw meithrin rhinweddau a sgiliau academaidd, creu chwilfrydedd a meithrin datblygiad deallusol o fewn 'cymuned o ymholiadau' lle mae myfyrwyr yn dysgu ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u galluoedd gyda'i gilydd. Mae llawer o'n myfyrwyr Anrhydeddau wedi symud ymlaen i raddau mewn prifysgolion blaenllaw, ar draws ystod o bynciau, o Beirianneg Awyrenegol i Sŵoleg. Rydym yn falch iawn bod prifysgolion, arolygwyr, rhieni, a myfyrwyr yn cydnabod ac yn canmol ein record o ran helpu dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

Disgwyliwn i fyfyrwyr Anrhydeddau gyfrannu at drafodaethau ar ystod o faterion, gan ddefnyddio safonau dadl barchus a meithrin cymeriad academaidd, moesol ac ysbrydol rhagorol. Ein nod yw paratoi pobl ifanc i lwyddo mewn amgylcheddau ôl-golegol, gyda ffocws penodol ar ddatblygu rhinwedd deallusol a'r sgiliau ymchwil annibynnol sy'n hanfodol ar gyfer Addysg Uwch. Credwn fod myfyrwyr o bob cefndir yn haeddu'r cyfle hwn. Rydym yn ceisio osgoi gosod dysgwyr yn 'fathau' penodol ac felly'n disgwyl i bob myfyriwr archwilio mewnforio rhyngddisgyblaethol y deunydd a gwmpesir a sut y caiff ei gymhwyso i'w diddordebau penodol eu hunain.

Fel gyda holl ddysgwyr Coleg Dewi Sant, bydd myfyrwyr Anrhydeddau yn cael gofal, cyngor, addysg a'u trin â'r parch y maent yn ei haeddu fel aelodau o goleg Catholig, ac yn bwysicaf oll, fel plant Duw.

# CYFLEOEDD CYFOETHOGI

Mae cymaint yn fwy i'r Coleg na gwersi'n unig. Rydym ni am i fyfyrwyr gael y mwyaf allan o'u hamser yng Ngholeg Dewi Sant ac rydym ni'n gweithio'n galed i gynnig gweithgareddau cyfoethogi sy'n ddefnyddiol i geisiadau UCAS myfyrwyr a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, i gynnig cyfleoedd i roi cynnig ar bethau newydd, i hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasol a lles, a rhoi profiad coleg iddynt ei gofio'n gyffredinol. Nod y gweithgareddau hyn yw ehangu amrywiaeth o brofiadau ein myfyrwyr, i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd a rhoi cyfle i fyfyrwyr gymdeithasu ag unigolion o'r un meddylfryd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynrychioli detholiad bach o'r hyn sy'n digwydd yn y Coleg.

## CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Mae ein staff a'n myfyrwyr wedi creu clybiau a chymdeithasau lle mae pobl sy'n rhannu diddordebau yn dod ynghyd i wneud y pethau sy'n ddiddorol iddyn nhw.

Mae'r clybiau a'r cymdeithasau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Y Gymdeithas Gatholig a Chyfeillion
- Gwirfoddoli yn y Coleg i fentora myfyrwyr eraill
- Bod yn gynrychiolydd dysgwyr ar gyfer eich cwrs
- Ymgymryd â phrofiad gwaith
- Mynd i Glwb Gwyliau
- Mynd i'r amrywiaeth o glybiau ar ôl coleg sydd ar gael, ac sy'n cynnwys;

Cylch llyfrau
Clwb ffilmiau
Clwb gwyddbwyll
Clwb ffuglen wyddonol
Coffi a Chlonc
Clwb Barddoniaeth
Clwb Gwleidyddiaeth
Athroniaeth
Trafodaeth
Cwrs Alffa
Gwaith elusennol (Helping Hands)
Pererindod Lourdes (Pontio Cenedlaethau)
Clebran (Grŵp Iaith Gymraeg)

## DARLITHWYR GWADD

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae siaradwyr a darlithwyr gwadd yn dod i Goleg Dewi Sant i siarad â'n myfyrwyr. Fel arfer, maent yn aelodau o gymunedau academaidd neu ddiwydiannol â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad.

## YMWELIADAU A THEITHIAU

Caiff yr holl fyfyrwyr gynnig cyfleoedd i ehangu eu hastudiaeth gydag ymweliadau a theithiau diwylliannol i amrywiaeth o leoliadau yn y DU a thramor, er enghraifft:

- Teithiau maes bioleg
- Diwrnodau lles
- Gweithdai gwyddoniaeth a mathemateg
- Prifysgol Caerdydd
- Neuadd Dewi Sant
- Ysbyty Prifysgol Cymru
- Ymweliadau â'r theatr - yn lleol ac yn Llundain
- Warner Brothers Studios – Harry Potter Experience
- Teithiau tywys o BBC London Studios
- Llys y Goron a Senedd y DU
- Gwaith maes ym Mharc Margam
- Cyfnewidion iaith ac
- Ymweliadau dros nos â'r Brifysgol
- Mae teithiau rhyngwladol yn cynnwys Efrog Newydd, Ffrainc, UDA, Gwlad Thai, Barcelona, Nepal a Phatagonia.

## CERDDORIAETH A DRAMA

Mae digonedd o gyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ensembles lleisiol ac offerynnol drwy gydol y flwyddyn. Mae côr y Coleg yn perfformio mewn digwyddiadau amrywiol, gan gynnwys dathliad yr Adfent, parti'r henoed a digwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adran ddrama yn croesawu myfyrwyr a fyddai'n hoffi bod yn berfformwyr neu'n aelodau o'r criw y tu ôl i'r llenni. Nid yw profiad blaenorol bob amser yn angenrheidiol, ond mae bob amser angen brwdfrydedd ac ymrwymiad. Mae ein hadran Celfyddydau Perfformio yn cynnal amrywiaeth o berfformiadau drwy gydol y flwyddyn academaidd ac mae bob amser croeso i ffrindiau a theulu ddod.

## PEIRIANNEG

Mae gan fyfyrwyr o Goleg Dewi Sant hanes hir o lwyddiant rhagorol mewn gwobrau peirianneg cenedlaethol, sy'n gyfle sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr ledled y Coleg. Mae myfyrwyr yn y cynllun yn gweithio gyda chwmnïau peirianneg lleol i ddylunio, gweithgynhyrchu a chyflwyno eu hatebion mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Yn y gorffennol, mae'r Coleg wedi ennill Peiriannydd Ifanc y Flwyddyn Cymru a Hyrwyddwr y Flwyddyn CREST Cymru (sef Gwobrau Creadigrwydd mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg).

# CHWARAEON

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o weithgareddau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys ein hacademïau chwaraeon perfformiad uchel. Mae gennym gampfa ffitrwydd newydd ei datblygu ac mae ystod o weithgareddau ffitrwydd a hamdden ar gael i fyfyrwyr gymryd rhan ynddynt yn ogystal â chlybiau wythnosol yn y coleg ar gyfer rygbi, pêl-droed, pêl-fasged, pêl-rwyd, badminton, pêl-bicl, tenis bwrdd a mwy yn ôl y galw. Mae'r Coleg yn cymryd rhan mewn cystadlaethau ysgolion/colegau lleol a chenedlaethol mewn ystod eang o chwaraeon tîm ac unigol.

## Academi Pêl-droed Dewi Sant

Mae Academi Pêl-droed Coleg Dewi Sant yn gweithio gyda dynion a merched a'i nod yw datblygu cyfranogiad yn ogystal â chwaraewyr o'r radd flaenaf gan ganolbwyntio ar ddatblygu unigolion cyflawn sy'n cofleidio disgyblaeth a gwaith caled ar y cae ac oddi arno. Gydag ymrwymiad cryf i hyfforddi, cystadlu, a lles chwaraewyr, mae'r Academi yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf yn Ocean Park Arena, mae ein prif hyfforddwr Ellis Holland (Caerdydd a'r Fro) yn hyfforddi mewn amgylchedd sy'n meithrin disgyblaeth, parch, a chyfeillgarwch gydol oes. Mae myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel, rhaglenni gemau, ac addysg mewn seicoleg chwaraeon, tactegau a maeth i gefnogi datblygiad chwaraewyr. Mae hyfforddiant academi yn digwydd ddwywaith yr wythnos yn Ocean Park Arena (mae cludiant yn cael ei ddarparu) gyda gemau fel arfer ar brynhawn dydd Mercher.

## Academi Pêl-fasged Coleg Dewi Sant

Mae Academi Pêl-fasged Coleg Dewi Sant yn cynnig agwedd gytbwys at addysg a phêl-fasged, gan ganiatáu i fyfyrwyr ragori yn academaidd ac yn athletaidd. Hyfforddir yr academi gan James Dawe (Met Caerdydd a Chymru), mae gennym dimau dynion a merched yn cystadlu mewn cynghreiriau CBL, cwpanau AOC, a thwrnameintiau Pêl-fasged Cymru, gyda sesiynau hyfforddi wedi'u hintegreiddio i'r wythnos academaidd. Mae myfyrwyr y rhaglen wedi mynd ymlaen i chwarae ar lefelau uwch, gan gynnwys yn UDA ac Ewrop. Cynhelir treialon ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae pob myfyriwr yn gymwys i gymryd rhan, gyda chyfleoedd ar gyfer chwarae cystadleuol a hamdden ar gael. Mae hyfforddiant academi yn digwydd ar ôl y coleg gyda gemau fel arfer ar brynhawn dydd Mercher. Mae gan holl chwaraewyr yr academi fynediad i gampfa'r coleg a sesiynau cryfder a chyflyru.





### Academi Rygbi Coleg Dewi Sant

Mae Academi Pêl-droed Coleg Dewi Sant yn gweithio gyda dynion a merched a'i nod yw datblygu cyfranogiad yn ogystal â chwaraewyr o'r radd flaenaf gan ganolbwyntio ar ddatblygu unigolion cyflawn sy'n cofleidio disgyblaeth a gwaith caled ar y cae ac oddi arno. Gydag ymrwymiad cryf i hyfforddi, cystadlu, a lles chwaraewyr, mae'r Academi yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf yn Ocean Park Arena, mae ein prif hyfforddwr Ellis Holland (Caerdydd a'r Fro) yn hyfforddi mewn amgylchedd sy'n meithrin disgyblaeth, parch, a chyfeillgarwch gydol oes. Mae myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel, rhaglenni gemau, ac addysg mewn seicoleg chwaraeon, tactegau a maeth i gefnogi datblygiad chwaraewyr. Mae hyfforddiant academi yn digwydd ddwywaith yr wythnos yn Ocean Park Arena (mae cludiant yn cael ei ddarparu) gyda gemau fel arfer ar brynhawn dydd Mercher.

## MENTERGARWCH

Mae Dewi Sant yn cynnig cymorth arbenigol i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn hunangyflogaeth, yn ogystal â chynnal nifer o weithgareddau menter a chystadlaethau trwy gydol y flwyddyn wedi cynnwys: Her Arian am Oes, Wythnos Menter Fyd-eang, y Ffair Nadolig, Trading Places, The Big Pitch, Syniadau Mawr Cymru, yr Her £1, a llawer mwy.

Mae gan Goleg Dewi Sant farn gyfannol am addysg: mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn rhoi profiadau cyfoethogi ychwanegol i'n myfyrwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

# CYFLEOEDD GWASANAETH

Mae amrywiaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli yn y Coleg a'r tu hwnt iddo, gan gynnwys cyfleoedd dramor. Mae gan wirfoddoli lawer o fanteision. Mae'n ffordd wych i gwrdd â phobl newydd. Er bod rhai pobl yn gymdeithasol iawn yn naturiol, mae pobl eraill yn swil a gall cwrdd â phobl newydd fod yn heriol. Mae gwirfoddoli'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ymarfer a datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Mae gwirfoddoli'n helpu i wrthsefyll effeithiau straen, dicter a gorbryder. Gall agwedd cyswllt cymdeithasol helpu a gweithio gydag eraill gael effaith drawiadol ar les seicolegol cyffredinol. Does dim byd yn lleddfu straen yn well na chysylltiad ystyrlon â pherson arall. Mae gwirfoddoli'n gwneud pobl yn hapusach. Drwy fesur hormonau a gweithgaredd yr ymennydd, mae ymchwilwyr wedi darganfod y gall helpu eraill roi lawer iawn o bleser. Mae pobl wedi'u gwifrio i roi i bobl eraill. Po fwyaf byddwn ni'n ei roi, hapusach y byddwn ni'n teimlo.

# YR IAITH GYMRAEG

Fel sefydliad Addysg Bellach a leolir ym mhrifddinas Cymru sydd wedi'i enwi ar ôl nawddsant Cymru, mae Dewi Sant yn ymroddedig i'r Iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'r polisi hwn yn gyson â Chynllun yr Iaith Gymraeg a ddarperir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n ceisio datblygu ar sail yr arferion da a'r mesurau rhagweithiol a roddwyd ar waith yn ein cynlluniau blaenorol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu darpariaeth ddwyieithog y Coleg ymhellach.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb a bydd yn parhau i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol at y Gymraeg er mwyn codi ei phroffil a chynyddu'r defnydd o'r iaith lle bynnag y bo modd.

**Cwricwlwm Dwyieithog Cydlynydd:**

Nia Edwards
nedwards@colegdewisant.ac.uk

# GWASANAETHAU MYFYRWYR

Mae ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnig cymorth a chyngor ar wneud cais am gymorth ariannol. Mae cymorth ar gael drwy Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) a thrwy Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF).

Mae cymorth ariannol FCF ar gael i helpu gyda chostau trafnidiaeth, prydau bwyd, offer, llyfrau a chostau eraill cysylltiedig â chyrsiau.

Mae meini prawf cymhwysedd wrth wneud cais am gymorth ariannol FCF. Mae cymhwysedd yn seiliedig ar drothwy incwm aelwydydd, yn ogystal â phresenoldeb **(mae presenoldeb o 95% yn ofynnol).**

Cyfeiriwch at ein gwefan ar gyfer gwybodaeth am gludiant.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch ni yn:
**studentservices@stdavidscollege.ac.uk**



# GALWEDIGAETHAU AC UCAS

Mae'r union syniad o alwedigaeth yn hanfodol bwysig i ni yng Ngholeg Catholig Dewi Sant. Mae hyn oherwydd ein bod, fel pobl ffydd, yn credu bod gan bob person rôl i'w chwarae yn y byd: bod pop un ohonom yn cael ein galw i ymgysylltu â'r byd mewn ffordd arbennig sy'n cyd-fynd â phwy ydym ni fel unigolion, ac i ddefnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth er lles pawb. I'r perwyl hwn, rydym yn cefnogi dysgwyr i ddod o hyd i'w galwedigaeth ac archwilio'r holl opsiynau ar gyfer symud ymlaen o Goleg Dewi Sant. Er enghraifft, bydd myfyrwyr yn gallu ymgysylltu â phrifysgolion, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol a chyn-fyfyrwyr trwy lawer o ddigwyddiadau a drefnir ar draws y flwyddyn academaidd, gan gynnwys: ein Gŵyl Alwedigaethau flynyddol, Ffair Addysg Uwch, Ffair Swyddi a Ffair Brentisiaethau. Anogir dysgwyr i ymweld â'r 'Launchpad' (ein Canolfan Cyflogaeth a Mentergarwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru) i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ymwneud â chyflogadwyedd, entrepreneuriaeth, gyrfaoedd ac Addysg Uwch gan staff Launchpad. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fyfyrwyr wrth ddewis eu camau nesaf ar ôl y Coleg, rydym yn buddsoddi mewn platfform gyrfaoedd ar-lein, Unifrog. Rydym hefyd yn cyfeirio dysgwyr at FutureLearn, Speakers for Schools a Springpod, yn ogystal â gwefannau a gwasanaethau gan gynnwys UCAS a Gyrfa Cymru.

Ochr yn ochr â'u hastudiaethau, rydym yn annog myfyrwyr yn gryf i gymryd rhan mewn gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith. Mae'r profiadau hyn yn galluogi myfyrwyr i wella eu sgiliau trosglwyddadwy, i wneud dewisiadau gwybodus ar eu llwybr dewisol ar gyfer camu ymlaen o'r Coleg, ac i sefyll allan ar eu datganiadau personol UCAS neu ar geisiadau am swyddi. Trwy e-byst bwletin wythnosol, gwneir myfyrwyr yn ymwybodol o gyfleoedd amrywiol, gan gynnwys: Cystadleuthau Sgiliau Ysbrydoli Cymru, profiad gwaith rhithwir ac wyneb yn wyneb, rhaglenni dealltwriaeth gyrfa, diwrnodau agored prifysgol, a swyddi/prentisiaethau gwag. Yn ogystal, rydym yn darparu cyfleoedd i'r myfyrwyr hynny sydd am ddod yn hunangyflogedig neu ddechrau eu busnes eu hunain naill ai nawr neu yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cynnig cymorth drwy ein cysylltiadau â Busnes Cymru a Syniadau Mawr Cymru. Rydym yn cynnig darpariaeth wedi'i deilwra i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn dyfodol mewn Gofal Iechyd, Rhydychen a Chaergrawnt, Meddygaeth, Deintyddiaeth a Meddygaeth Filfeddygol. Yn y cyfamser, i'r rhai sy'n dymuno mynd i fyd gwaith (naill ai ochr yn ochr â'r Coleg neu ar ôl hynny), darperir cefnogaeth i greu CVs o ansawdd uchel, llythyrau eglurhaol a cheisiadau, a pharatoi ar gyfer cyfweliad trwy'r 'Launchpad'.

Yn y Chweched Uchaf, i ychwanegu at y gefnogaeth a ddarperir gan y 'Launchpad', Tiwtor Bugeiliol ac athro Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru, dyrennir Mentor Dilyniant i bob myfyriwr. Rôl Mentor Dilyniant yw helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch dilyniant ac, os yw'n berthnasol, eu harwain trwy'r broses derbyn i brifysgolion. Bydd hyn yn cynnwys: eu cynghori ar ofynion cwrs, eu hannog i fynychu diwrnodau agored a ffeiriau addysg y brifysgol, marcio drafftiau o ddatganiadau personol, a'u cefnogi i gwblhau eu ffurflen gais ar-lein.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses UCAS,
cyngor gyrfaoedd neu gynllunio ar gyfer dilyniant, e-bostiwch:
**launchpad@stdavidscollege.ac.uk**

# SUT GALLWCH CHI GYFRANOGI?

Efallai y bydd eich rôl chi'n wahanol, one mae rhieni/gwarcheidwaid yr un mor bwysig i gymuned Coleg Dewi Sant a'u plant. Gallwch chi chwarae eich rhan chi yn llwyddiant eich plentyn, yn gyntaf oll, drwy ddod i'n hadnabod yng Ngholeg Dewi Sant a'r hyn rydym ni'n sefyll drosto.

Byddem ni'n eich annog chi i gymryd diddordeb gweithredol yn addysg eich plentyn drwy ofyn iddynt am eu dosbarthiadau a'u lles yn gyffredinol. Gofynnwch gwestiynau fel: "Beth wyt ti'n astudio?" "Beth sydd fwyaf diddorol i ti am [BWNC]?" "Beth yw dy gryfder/gwendid mwyaf mewn [PWNC] yn dy farn di?"

Uwchben popeth, byddem ni'n gofyn i chi annog eich plentyn i ddarllen, i ddatblygu a chynnal patrwm astudio da, a chydymffurfio'n agos â Siarter y Coleg.

Bydd hefyd gennych chi'r cyfle i siarad yn uniongyrchol ag athrawon eich plentyn a dysgu am eu cynnydd o lygad y ffynnon. Cewch hefyd wahoddiad i gwblhau arolwg rhieni/gwarcheidwaid blynyddol a rhoddir manylion mewngofnodi i chi gyrchu Porth Rhieni'r Coleg lle byddwch chi'n gallu gweld data byw sy'n berthnasol i gynnydd eich mab/merch.

Yn bwysicaf oll, bydd pethau'n well i bawb os bydd llinellau cyfathrebu agored rhwng y Coleg a gartref. Os oes gennych chi gwestiynau neu bryderon unrhyw bryd, sicrhewch eich bod chi'n cysylltu'n uniongyrchol â thiwtor bugeiliol eich plentyn, neu drwy gysylltu â'r Dderbynfa a gofyn i siarad â'r person cywir.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r profiad gorau posib i'ch man neu'ch merch!



# OS OES GENNYCH BRYDER, CANMOLIAETH NEU GŴYN

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn ymrwymedig i ddarparu ansawdd uchel o addysg i'w holl ddysgwyr. Rydym ni'n credu bod ein Coleg yn cynnig addysg ragorol i'w holl ddysgwyr, a bod staff yn gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u holl ddysgwyr, rhieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill.

Fodd bynnag, mae'r Coleg yn ymrwymedig i gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion lle bydd cwynion am lefel y gwasanaeth a brofir. Mae'n bwysig i ni y caiff pryderon eu codi cyn gynted â phosib i alluogi i ni ymdrin â nhw'n brydlon.

Mae'r Coleg yn ceisio bod yn deg ac yn agored wrth ymdrin ag unrhyw bryderon a/neu gwynion. Rydym ystyried yr holl gwynion yn llawn ac yn ofalus ac ymdrin â nhw cyn gynted â phosib, gan ymdrechu i ddatrys unrhyw bryderon neu gwynion drwy ddeialog a chyd-ddealltwriaeth. Yn yr holl achosion, bydd diddordeb y dysgwr yn flaenllaw wrth ddarparu digon o gyfleoedd i drafod unrhyw bryder neu gŵyn yn llawn a'i datrys.

- Byddwn yn sicrhau bod codi neu wneud cwyn ffurfiol mor rhwydd â phosib.
- Byddwn yn trin yr holl bryderon a chwynion o ddifrif.
- Byddwn yn ymdrin ag unrhyw bryder neu gŵyn mewn ffordd onest, gwrtais ac yn gyfrinachol.
- Byddwn yn ymdrin â'r pryder neu'r gŵyn yn brydlon, yn drylwyr ac yn ddiduedd.
- Byddwn yn eich diweddaru chi â'r cynnydd bob cam o'r ffordd.
- Byddwn yn ymateb yn y ffordd iawn - gydag esboniad neu ymddiheuriad, os yn briodol.
- Byddwn yn dweud wrthych chi pa gamau byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod pethau'n iawn.
- Caiff yr holl gwynion eu cofnodi mewn log cwynion, a chânt eu hadrodd wrth y corff llywodraethu'n rheolaidd.
- Byddwn yn dysgu o bryderon a godwyd a chwynion a wnaed a'u defnyddio i wella ein gwasanaeth.

I gael gwybodaeth fwy manwl, gweler ein dogfen polisi Pryderon, Cwynion a Chanmoliaeth ar y wefan:

**https://www.stdavidscollege.ac.uk/documents-policies/**

# BETH I'W WNEUD OS...

# CANLLAW CYFLYM

## MAE NEU BYDD EICH MAB/MERCH YN HWYR GYDA RHESWM

E-bostiwch y tiwtor personol cyn gynted â phosib ac o fewn 10 niwrnod i ddweud wrth beth yw'r rheswm a'r amser y mae disgwyl iddo/i ei golli. Gallwch wneud hyn drwy Parent Advantage.

## MAE, NEU BYDD, EICH MAB/MERCH YN ABSENNOL GYDA RHESWM

E-bostiwch y tiwtor personol cyn gynted â phosib ac o fewn 10 niwrnod i ddweud wrth beth yw'r rheswm a'r amser y mae disgwyl iddo/i ei golli. Gallwch wneud hyn drwy Parent Advantage. Mae'n bosib y bydd angen tystiolaeth feddygol neu ddogfennaeth ategol i awdurdodi absenoldeb.

## RYDYCH CHI'N YSTYRIED TEITHIO YN YSTOD Y TYMOR

Er nad ydym ni'n cynghori nac yn caniatáu teithio yn ystod y tymor, gallai fod amgylchiadau lle mae'n angenrheidiol i deulu. Os ydych chi'n creu mai dyma'r achos, e-bostiwch diwtor personol eich mab/merch i esbonio natur y teithio. Os rhoddir caniatâd i deithio, sicrhewch fod yr holl athrawon yn ymwybodol, a bod eich plentyn yn dal i fyny ag unrhyw waith gallai ei golli yn ystod y cyfnod o absenoldeb. Byddwch yn ymwybodol wrth archebu teithiau o gwmpas cyfnodau arholiadau gan y bydd hyn yn effeithio ar berfformiad a chanlyniadau cyffredinol.

## MAE GENNYCH CHI GWESTIYNAU AM BERFFORMIAD ACADEMAIDD EICH MAB/MERCH

Os yw'r pryder yn un cyffredinol, cysylltwch â'r tiwtor personol. Fodd bynnag, os yw'n benodol i bwnc, e-bostiwch athro'r pwnc yn uniongyrchol. Mae gyfleoedd i gysylltu ag athrowon pwnc mewn nosweithiau rhieni.

## MAE GENNYCH CHI GWESTIYNAU AM LES PERSONOL EICH MAB/MERCH

Os nad oes pryder o natur ddybryd (e.e. NID yw ef na hi mewn perygl uniongyrchol), cysylltwch â'i d/thiwtor personol yn y man cyntaf. Os oes pryder penodol sy'n gofyn am sylw ar frys, cysylltwch â Thîm Diogelu'r Coleg, (feelsafe@stdavidscollege.ac.uk). Gall rhieni hefyd ofyn am gael siarad â'u hathro myfyrio ysbrydol.

## MAE GENNYCH CHI GWESTIYNAU AM DDYFODOL EICH MERCH/MAB

Mae'r Coleg yn cynnig sawl adnodd i fyfyrwyr sy'n meddwl am eu dyfodol, gan gynnwys cyngor tiwtoriaid personol a thîm Launchpad penodol **(launchpad@stdavidscollege.ac.uk).** Gall rhieni sydd am drafod cwestiynau o'r fath hefyd ofyn am siarad ag Athro eu mab/merch neu unrhyw aelod o'r Tîm Caplaniaeth **(chaplaincy@stdavidscollege.ac.uk).**

## MAE GENNYCH CHI GWESTIYNAU AM WEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL EICH MERCH/MAB

Os oes gennych chi gwestiynau am weithgaredd penodol, y peth gorau fyddai cysylltu â'r aelod o staff sy'n gyfrifol amdano. Os yw'n gwestiwn neu'n pryder cyffredinol, cysylltwch â thiwtor personol eich plentyn a fydd yn gallu archwilio ac ymateb i'ch ymholiad.

## MAE GENNYCH CHI GWESTIYNAU AM DDIOGE-LU YN Y COLEG

Gweler y wefan ganlynol am ragor o wybodaeth: https://cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/wellbeing-safeguarding/, lle gallwch chi ganfod gwybodaeth gyswllt ar gyfer yr aelodau o staff sy'n gyfrifol am ddiogelu. Os yw eich cwestiwn yn un cyffredinol, gallwch ofyn i diwtor personol eich plentyn, neu unrhyw aelod o staff, a fydd yn gwneud ei orau glas i ateb mewn ffordd brydlon a chywir.

Gweler ein gwefan lle mae rhestr o gwestiynau cyffredin sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Coleg.



# NODIADAU

Wrth gyfathrebu â'r Coleg ynghylch eich mab/merch, gallai fod yn ddefnyddiol cael yr wybodaeth ganlynol wrth law:

| | |
|---|---|
| **CYFEIRNOD Y MYFYRIWR:** | |
| **ENW'R TIWTOR BUGEILIOL:** | |
| **E-BOST Y TIWTOR BUGEILIOL:** | |

# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

## ANXIETY UK

Os ydych chi wedi cael diag-nosis o gyflwr gorbryder

**03444 775 774**
anxietyuk.org.uk

## HOPE AGAIN

Cymorth i bobl ifanc pan fydd rhywun yn marw

**0808 808 1677**
hopeagain.org.uk

## HEADMEDS

Gwybodaeth glir am feddyginiaeth iechyd meddwl i bobl ifanc

**text YM to 85258**
headmeds.org.uk

## BEAT

Ar gyfer pobl dan 18 oed ag anhwylderau bwyta, megis anorecsia/bwlimia

**0808 801 0433**
beateatingdisorders.co.uk

## CHILDLINE

Llinell gymorth 24 awr i bobl ifanc hyd at 21 oed

**0800 1111**
childline.org.uk

## MEIC

Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc

**0808 800 0661**
or text 84001
*8am - midnight*

## CALM

Ar gyfer dynion sy'n teimlo'n isel neu mewn argyfwng

**0800 58 58 58**
thecalmzone.net

## FRANK

Cyngor a gwybodaeth am gamddefnyddio cyffuriau a sylweddau

**0300 123 6600**
talktofrank.com

## HOPELINEUK

Cymorth heb feirniadaeth os ydych chi'n ei chael hi'n anodd o ran gorbryder neu feddwl am hunan-ladd

**0800 068 4141**
papyrus-uk.org/hopelineuk

# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

## DAN 24/7

Llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer cyffuriau ac alcohol

**0808 808 2234**
or text DAN to 81066

## DEWIS CYMRU

Cronfa ddata Cymru o asiantaethau cymorth lleol a chenedlaethol

www.dewis.wales

## LLAMAU

Llinell gymorth digartrefedd pobl ifanc

**08000 495 49**

## OCD

Cymorth ieuenctid i bobl ifanc ag OCD

ocdyouth.org

## Student Assistance Programme

Llinell gymorth 24 awr i'ch cefnogi chi drwy unrhyw broblem neu fater mewn bywyd

**0800 028 3766**

## Rethink Mental Illness

Cymorth a chyngor i bobl â phroblemau iechyd meddwl

**0808 801 0525**
rethink.org

## SAMARITANS

Cymorth cyfrinachol i bobl sy'n profi trallod, diffyg gobaith neu deimladau hunanladd

**116 123**
jo@samaritans.org

## YOUNGMINDS

Gwybodaeth am wahanol broblemau iechyd meddwl

youngminds.org.uk

## CHAPLAINCY

Cymorth a chyfleoedd i ddatblygu'n bersonol ac yn ysbrydol

**chaplaincy@stdavidscollege.ac.uk**
Room M13 & G03a

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

cymraeg.stdavidscollege.ac.uk

Dilynwch Goleg Dewi Sant ar y cyfryngau cymdeithasol:

stdavidscollege @stdavidscoll

Heol Tŷ Gwyn, Penylan, Caerdydd CF23 5QD | Ffôn/Tel: 02920 498 555
ymholiadau@colegdewisant.ac.uk | enquiries@stdavidscollege.ac.uk